



HERIAU CYFOES

Gwneud Gwahaniaeth



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYFLWYNIAD MODIWL

Cynnwys

2. Trosolwg o'r Modiwl

3. Strwythur y Modiwl

4. Llywio drwy'r Modiwl

Trosolwg o'r Modiwl

Prif nod y modiwl hwn yw meithrin ymdeimlad o berthyn i ddynoliaeth gyffredin a'ch helpu i ddod yn ddinesydd byd-eang cyfrifol a gweithredol.

Nod y dysgu sy'n seiliedig ar waith prosiect yw eich grymuso i ymgymryd â rôl weithredol i wynebu a datrys heriau byd-eang a dod yn gyfrannwr gweithredol i fyd mwy heddychlon, goddefgar, cynhwysol a diogel.


Drwy gydol y modiwl byddwch yn datblygu galluoedd craidd fydd yn gadael i chi ymgysylltu'n weithredol gyda'r byd a helpu i'w wneud yn lle mwy cyfiawn a chynaliadwy. Byddwch yn gyfranogwr gweithredol mewn prosiectau sy'n ymdrin â materion byd-eang o natur gymdeithasol, wleidyddol, economaidd neu amgylcheddol drwy ddull amlddisgyblaethol.

Mae dysgu **amlddisgyblaethol** yn ddull 'cyflawn' neu 'gynhwysfawr' sy'n cwmpasu syniad, pwnc neu destun drwy

gyfuno parthau gwybodaeth niferus. Mae'n ddull pwerus iawn o ddysgu sy'n croesi ffiniau disgyblaeth er mwyn cyfoethogi cwmpas a dyfnder y dysgu.

Gall myfyrwyr **amlddisgyblaethol** fod yn amlwg i gyflogwyr oherwydd y bydolwg cyfoethog maen nhw'n ei ddatblygu. Gallai'r amrywiaeth eang o safbwyntiau y byddwch wedi dod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau, a'r cyfuniad o feysydd pwnc y byddwch wedi'u hastudio, gynnig dewisiadau gyrfa mwy hyblyg.

Yn wir, mewn llawer o'r swyddi sydd ar gael, does dim sôn am yr wybodaeth pwnc-benodol sydd ei hangen ar gyfer y rôl; y sgiliau y byddwch wedi'u datblygu yn ystod eich astudiaethau yn ogystal â'ch profiadau bywyd eraill yw'r hyn sydd gan gyflogwyr ddiddordeb ynddo. Felly mae astudio mwy nag un pwnc yn eich helpu i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy pwysig, sy'n datblygu'n barhaus ar bob cam yn eich bywyd.



Strwythur y Modiwl

Mae gan y modiwl 48 awr o ddysgu a amserlennir, bydd tiwtor eich modiwl yn esbonio sut y trefnir hyn rhwng sesiynau wyneb yn wyneb (yn bersonol neu ar-lein) a'r defnydd o'r cynnwys digidol sydd ar gael ar Moodle.

Rhennir y cynnwys ar-lein rhwng y 4 uned ganlynol:

Y pedair uned yw:

- Uned 1. Gweledigaethau'r Dyfodol
- Uned 2. Mae'r Dyfodol yn Ddynol
- Uned 3. Newid drwy Gynllunio
- Uned 4. Her Datrys Problem

Mae'r modiwl yn cynnwys dysgu'n seiliedig ar brosiect a bydd disgwyl i chi ymgymryd â gwaith grŵp i fodloni deilliannau dysgu'r modiwl.



Mae'r modiwl yn cynnwys dau asesiad, e-bortffolio a chyflwyniad grŵp gyda dogfen ategol, a welwch yn y Llawlyfr Modiwl.

Llywio Drwy'r Modwl

Wrth i chi weithio trwy'r cynnwys dysgu hwn, gofynnir i chi wneud gwahanol fathau o weithgareddau dysgu i wella a chefnogi eich dealltwriaeth o'r deunydd. Mae'n bwysig eich bod yn ymgysylltu'n llawn â'r gweithgareddau dysgu hyn gan mai dim ond un rhan o'r broses ddysgu yw caffael gwybodaeth – drwy fod yn gyfranogwr gweithredol yn eich dysgu drwy'r gweithgareddau hyn byddwch yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach a chyfoethocach o'r pynciau a'r cysyniadau a drafodir yn y modiwl.

Pryd bynnag y byddwch chi'n dod ar draws y tasgau a'r eiconau canlynol, mae'n golygu bod angen i chi gwblhau gweithgaredd:



Gwirio - yn rhoi cyfle i chi wirio pa mor dda rydych chi wedi deall y pwnc hyd yn hyn. Mae hunanasesu yn rhan bwysig o'r broses ddysgu gan ei fod yn eich galluogi i atgyfnerthu'r cysyniadau hynny rydych yn eu deall yn dda, ac amlygu unrhyw gamsyniadau and/or meysydd lle gallai fod angen i chi wneud rhywfaint o astudiaeth bellach.



Rhwydwaith - Ni ddylai dysgu ar-lein fod yn weithgaredd unigol - mae gallu trafod, cydweithio a chymharu eich dealltwriaeth â chyddysgwyr trwy dasg Rhwydwaith yn arf pwerus i wneud y mwyaf o'ch enillion dysgu. Gall gweld bod gan eraill yr un ddealltwriaeth â chi fod yn hwb gwirioneddol i hyder a rhoi sicrwydd i chi eich bod ar y trywydd iawn, ac os yw eraill yn dehongli pethau'n wahanol gall gweld pethau o safbwynt gwahanol fod yr un mor werthfawr.



Myfyrio - Yn aml, gofynnir i chi oedi ac ystyried syniadau a chysyniadau rydych newydd eu dysgu, er mwyn caniatáu i chi gnoi cil ar y dysgu a dechrau meddwl yn ehangach am sut mae'n cydfynd â'ch disgyblaeth. Er nad yw tasgau Myfyrio fel arfer yn gofyn i chi ysgrifennu unrhyw beth, mae'n bwysig cymryd yr amser i feddwl am y cwestiwn a ofynnir ac wrth gwrs gallwch gofnodi eich meddyliau yn eich nodiadau personol os dymunwch.



Ymgeisiwch - Mae'r modiwlau hyn yn ymdrin â phynciau a sgiliau sy'n werthfawr ar draws pob disgyblaeth, fodd bynnag byddwch yn gallu deall, gwerthfawrogi a chael y budd mwyaf trwy ystyried sut mae'r dysgu'n cydfynd â'ch disgyblaeth academaidd a'ch credoau a'ch gwerthoedd eich hun. Mae cymhwyso tasgau yn rhoi'r cyfle i chi osod y dysgu mewn cyddestun sy'n berthnasol i chi, ac i gysylltu eich dysgu â'ch nodau bywyd go iawn.

Byddwch yn dod o hyd i bopeth y mae ei angen arnoch ar dudalen Moodle y modwl, lle mae hefyd fforwm holi ac ateb i godi unrhyw bryderon a allai fod gennych wrth symud drwy'r deunydd.



Rydych chi bellach yn barod i ddechrau dysgu.

Pob lwc!



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David
